

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



YSGOL I.D. HOOSON

10.12.20

Annwyl Rieni / Ofalwyr,

NEWYDDION AM DREFNIADAU DIWEDD TYMOR - Hoffwn eich hysbysu o wybodaeth bwysig yr ydym wedi ei dderbyn heddiw yn ymwneud a phenderfyniad yr Awdurdod Lleol o ran trefniadau diwedd y tymor.

Mae'r cyfnod hwn yn un anodd iawn i bawb yn y gymuned ar draws Wrecsam ac fe wyddom oll fod Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar sawl agwedd o'n bywydau.

Mae achosion o Covid wedi tarfu ar addysg llawer o ddisgyblion y tymor hwn ac yn parhau i wneud hynny wrth i nifer yr achosion godi ymysg plant ac oedolion ar draws y sir. O ganlyniad, mae llawer o blant a phobl ifanc wedi gorfod hunan-ynysu a gwerthfawrogn yn fawr eich cefnogaeth gyson yn y sefyllfa hon.

Mae holl aelodau'r Gymuned Addysg yn bryderus am y cynnydd yn niferoedd yr achosion a'r effaith mae hyn yn ei gael ar blant a theuluoedd. O'r herwydd, cytunwyd heddiw gyda'r Awdurdod Lleol y bydd dysgu wyneb-yn-wyneb yn dod i ben i bob disgybl ein hysgol ni ar ddiwedd **dydd Mercher, y 16eg o Ragfyr** a bydd peth dysgu ar lein a phrecyn gwaith ar gael i'r plant ar gyfer 17eg a'r 18fed.

Mae'r awdurdod lleol a chymuned ein hysgol yn ymroddedig i gynnig y ddarpariaeth orau o dan amgylchiadau sy'n gynyddol heriol ac rydym yn deall pa mor bryderus yw'r sefyllfa i chi. Ymddiheuraf am yr anghyfleustra a'r byr rybudd.

Trefniadau Ionawr 2021 - O ganlyniad i resymau yn ymwneud ac iechyd a diogelwch wrth ymateb i Covid-19, cyflwynwyd nifer o drefniadau newydd ers cychwyn y tymor ym mis Medi. Byddwn yn parhau gyda'r trefniadau presennol ym mis Ionawr, gan adolygu wrth i'r sefyllfa o ran Covid-19 ddatblygu yn y flwyddyn Newydd. Ni fydd newid felly i amserlen y dydd.

O ran trefniadau dod a phlant i'r ysgol a chasglu plant o'r ysgol, gofynnaf i bawb am ei cydweithrediad gyda'r amserlen hon. Gan fod blwyddyn 3-6 yn cychwyn am 8.55 y.b., ac yn gorffen am 3.00 y.p., a dosbarthiadau y cyfnod Sylfaen yn cychwyn am 9.15 ac yn gorffen am 2.45, byddai'n hwyluso trefniadau traffig a pharcio yn sylweddol os y byddai rhieni a gofalwyr yn osgoi cyrraedd yn rhy gynnar/hwyr ar safle'r ysgol. Byddem yn wir gwerthfawrogi cyrraedd dim mwy na 5 munud cyn yr amseroedd gollwng a chasglu

Cardiau Nadolig - Os yw plant yn dod a chardiau Nadolig, bydd rhain angen bod yn yr ysgol erbyn dydd Llun 14/12/20 fan bellaf. Bydd rhain yn cael ei gadael mewn bocs postio ym mhob dosbarth a byddwn wedyn yn trefnu fod rhain yn cael ei dosbarthu o bob dosbarth yn ystod pŵn Mercher 16eg, sef dydd olaf y tymor. Bydd hyn hefyd yn berthnasol o ran unrhyw arhegion.

USB caneuon y Nadolig - Mae'r staff wedi bod yn brysur yn paratoi cof bach/USB y Nadolig i bob dosbarth. Er bod y trefniadau yn wahanol am eleni, mae perfformiadau'r plant yn hyfryd. 'Rwyf yn hyderus y gwnewch fwynhau gwyllo rhain gyda'ch teuluoedd dros y Nadolig,

Adroddiad Cynnydd - Hoffwn eich atgoffa, os nad ydych yn barod wedi cael mynediad i adroddiad eich plentyn am y tymor hwn, fod rhain ar gael drwy gyftri Hwb eich plentyn. Os ydych angen cymorth yn cael mynediad iddo, yna a fydddech cystal â chysylltu gydag athro/awes eich plentyn.

Dyledion - Gan ei bod yn ddiwedd tymor, gofynnwn yn garedig i unrhyw un sydd gyda dyledion cinio, Meithrin Mwy, neu Glwb ar ôl ysgol i sicrhau fod rhain wedi ei talu cyn diwedd yr wythnos hon (Mercher 16eg o Ragfyr). Ni fydd yn bosib cynnig cinio ysgol, lle yn y Meithrin mwy neu glwb ar ôl ysgol hyd nes y bydd dyledion wedi ei talu. Diolch am eich cydweithrediad.

Mr Kevin Davies a Mrs Jackie Davies - Byddwn yn ffarwelio gyda Mr a Mrs Davies, neu 'Jackie a Kev' ar ddiwedd y tymor hwn, gan y bydd y ddau yn ymddeol. Mae Mrs Davies wedi bod yn lanhawraig ar yr ysgol am 22 o flynyddoedd a Mr Davies yn ofalwr am 11 o flynyddoedd. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i'r ddau am ei gwaith yn yr ysgol dros y blynyddoedd. Mae'r ddau wedi bod yn ffyddlon iawn tuag at yr ysgol, wedi cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri ac yn sicr wedi dangos balchder ac ymroddiad tuag at yr ysgol. Dwi'n siŵr y byddwch fel fi, am ddiolch i'r ddau, gan ddymuno pob hapusrwydd iddynt yn ei hymddeoliad.

Hoffwn gadarnhau felly mai dydd Mercher Rhagfyr 16eg fydd diwrnod olaf y tymor i'r plant yn yr ysgol. Bydd yr ysgol yn ail agor i'r plant ar **ddydd Mawrth Ionawr 5ed, 2020**, gan y bydd dydd Llun Ionawr 4ydd yn ddiwrnod hyfforddiant i athrawon.

Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd, gan ddiolch am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn ystod y tymor hwn sydd wedi bod yn heriol i bawb. Edrychwn ymlaen at groesawu pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl y Nadolig yn y flwyddyn Newydd, gan obeithio y bydd 2021 yn flwyddyn a fydd yn dod a gobaith i ni gyd fod sefyllfa yn agosáu ble byddwn yn medru gweithredu trefniadau sydd yn fwy tebyg i'r rhai arferol o fewn yr ysgol a'r byd.

Yn gywir,

Rhodri Jones
Pennaeth